tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839862-5

9 780348 398625

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 91

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed *18 Mawrth 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 91

The Representation of the People (Absent Voting and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made *18 March 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)

£21.10

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 91

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

SENEDD CYMRU

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i gyfyngu, i uchafswm o dair blynedd, y cyfnod y gall person wneud cais i bleidleisio drwy'r post amdano yn etholiadau'r Senedd. Mae darpariaethau hefyd yn darparu ar gyfer gweithredu'r diwygiadau a wneir i Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) ("Deddf 2000") gan Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27) ("Deddf 2025"), sy'n cyfyngu ar y cyfnod y gall person wneud cais i bleidleisio drwy'r post amdano mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno ar-lein geisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, yn ogystal â gwirhau gwybodaeth a ddarperir yn y ceisiadau hynny (pa un a ydynt yn cael eu cyflwyno ar-lein ai peidio). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu bod modd i swyddogion cofrestru ofyn am dystiolaeth bellach gan geiswyr i wirhau pwy yw'r ceisydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau amrywiol i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (O.S. 2025/864) (Cy. 150) ("Gorchymyn 2025").

Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer enwi, cychwyn a dehongli'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 1 yn dwyn rheoliadau 1, 2 a 29 i 44 i rym ar 24 Mawrth 2026, ac yn dwyn yr holl ddarpariaethau sy'n weddill i rym ar 3 Tachwedd 2026.

Mae rheoliad 2 yn nodi'r diffiniadau sy'n gymwys yn y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau ar y cyfnod y gall person wneud cais am bleidlais drwy'r post amdano.

Mae rheoliad 5 yn diwygio erthygl 6 (pleidlais absennol yn etholiadau'r Senedd ar gyfer cyfnod penodol neu amhenodol) o Orchymyn 2025, sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i geisiadau pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd gael eu gwneud am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol. Mae'r diwygiadau'n golygu, yn etholiadau'r Senedd, na fydd yn bosibl mwyach i berson wneud cais am bleidlais drwy'r post am gyfnod amhenodol. O dan y newidiadau, ni chaiff y cyfnod y gall person wneud cais i bleidleisio drwy'r post amdano ar gyfer etholiad i'r Senedd fod yn hwy na thair blynedd. Mae'r diwygiadau'n darparu y bydd y bleidlais drwy'r post am y cyfnod hwyaf posibl yn para tan y trydydd 31 Ionawr ar ôl y dyddiad y caniateir y cais am y bleidlais drwy'r post honno. Bydd hyn yn sicrhau y daw hawlogaeth i bleidlais drwy'r post i ben ar 31 Ionawr yn y flwyddyn berthnasol, a fydd yn rhoi amser i'r person wneud cais am bleidlais drwy'r post newydd cyn unrhyw etholiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Mai'r flwyddyn honno. Mae'r diwygiadau hefyd yn caniatáu i berson wneud cais am bleidlais drwy'r post am gyfnod byrrach.

Mae rheoliad 6 yn diwygio erthygl 10 (pleidleisio fel dirprwy yn etholiadau'r Senedd) o Orchymyn 2025, sy'n ymwneud â phersonau'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr arall mewn etholiad i'r Senedd. Mae'r diwygiadau'n gwneud newidiadau sy'n cyfateb i'r rheini a wneir gan reoliad 5, fel na chaiff caniatâd ar gyfer cais i bleidleisio drwy'r post gan bleidleisiwr drwy ddirprwy mewn perthynas ag etholiad i'r Senedd bara am fwy na thair blynedd.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd) i Orchymyn 2025 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r cyfnod ar gyfer pleidlais drwy'r post a wneir gan reoliadau 6 a 7. Mae rheoliad 7(3) yn gwneud diwygiadau i baragraff 12 (caniatáu neu wrthod ceisiadau). Mae rheoliad 7(3)(a) yn mewnosod is-baragraff newydd (1A) sy'n nodi bod rhaid i unrhyw hysbysiad i geisydd y mae ei gais i bleidleisio drwy'r post wedi ei ganiatáu o dan baragraff 12(1) gynnwys y dyddiad y daw'r hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post i ben. Mae rheoliad 7(3)(b) yn mewnosod is-baragraffau newydd (8A) i (8E) sy'n darparu i hysbysiadau ychwanegol gael eu hanfon gan swyddogion cofrestru mewn amgylchiadau penodol. Mae rheoliad 7(4) yn mewnosod paragraff newydd 15A sy'n darparu i hysbysiad ychwanegol gael ei anfon at etholwyr a dirprwyon, sydd â hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad i'r Senedd yn rhinwedd hawlogaeth a roddwyd am y cyfnod hwyaf, yn rhoi gwybod iddynt am y dyddiad y daw'r hawlogaeth i ben ac yn darparu gwybodaeth am y broses ar gyfer gwneud cais newydd. Mae rheoliad 7(5) yn diwygio paragraff 16 drwy fewnosod is-baragraff newydd (A1) fel na fydd y gofyniad i ddarparu llofnodion bob pum mlynedd yn gymwys mwyach i etholwyr na dirprwyon sy'n parhau i fod â hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad i'r Senedd.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Rhan 4 (pleidleiswyr absennol) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (O.S. 2001/341) ("Rheoliadau 2001"). Mae rheoliad 8(2) yn diwygio rheoliad 57 (caniatáu neu wrthod ceisiadau). Mae rheoliad 8(2)(a) yn diwygio paragraff (1A) fel, pan fo ceisydd yn cael ei hysbysu bod cais i bleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiad llywodraeth leol yng Nghymru wedi ei ganiatáu o dan baragraff (1), fod rhaid i'r hysbysiad gynnwys y dyddiad y daw hawlogaeth yr etholwr i bleidleisio drwy'r

post i ben. Mae rheoliad 8(2)(b) yn diwygio rheoliad 57(7) er mwyn darparu i hysbysiadau ychwanegol gael eu hanfon gan swyddogion cofrestru mewn amgylchiadau penodol. Mae rheoliad 8(3) yn diwygio rheoliad 60ZA (caniatáu neu wrthod ceisiadau) er mwyn darparu i hysbysiad ychwanegol gael ei anfon at etholwyr a dirprwyon, sydd â hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru yn rhinwedd hawlogaeth a roddwyd am y cyfnod hwyaf, yn rhoi gwybod iddynt am y dyddiad y daw'r hawlogaeth i ben ac yn darparu gwybodaeth am y broses ar gyfer gwneud cais newydd. Mae rheoliad 8(4) yn diwygio rheoliad 60A (gofyniad i hysbysu etholwyr a dirprwyon penodol fod hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post i ddod i ben) fel nad yw'r gofyniad i ddarparu llofnodion bob pum mlynedd yn gymwys mwyach i etholwyr na dirprwyon sy'n parhau i fod â hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â gofynion cyffredinol ar gyfer ceisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol mewn perthynas â darparu rhifau yswiriant gwladol.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd) i Orchymyn 2025 er mwyn darparu i geisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd gynnwys rhif yswiriant gwladol y ceisydd, neu'r rheswm pam nad oes modd i'r ceisydd ei ddarparu.

Mae rheoliad 12 yn diwygio Rhan 1 (cyffredinol, dehongli ac amrywiol) o Reoliadau 2001 er mwyn mewnosod diffiniad newydd o "cais pleidleisio absennol datganoledig perthnasol" yn rheoliad 3(1).

Mae rheoliad 13 yn diwygio Rhan 4 (pleidleiswyr absennol) o Reoliadau 2001 fel bod rhaid i geisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gynnwys rhif yswiriant gwladol y ceisydd, neu'r rheswm pam nad oes modd i'r ceisydd ei ddarparu.

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch y defnydd o wasanaeth digidol y DU ar gyfer ceisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol.

Mae rheoliadau 15 ac 16 yn diwygio Gorchymyn 2025 er mwyn darparu ar gyfer cyflwyno ar-lein geisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd drwy wasanaeth digidol y DU.

Mae rheoliadau 18 a 19 yn diwygio Rheoliadau 2001 er mwyn darparu ar gyfer cyflwyno ar-lein geisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru drwy wasanaeth digidol y DU.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwirhau gwybodaeth a ddarperir mewn cais pleidleisio absennol datganoledig perthnasol, yn darparu pŵer i ofyn am dystiolaeth ychwanegol ac yn gwneud darpariaeth i ganiatáu ar gyfer prosesu gwybodaeth a ddarperir.

Mae rheoliad 20 yn diwygio Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd) i Orchymyn 2025 er mwyn mewnosod paragraffau newydd 11A, 11B ac 11C. Mae paragraff 11A yn darparu ar gyfer gwirhau gwybodaeth a ddarperir mewn ceisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd. Mae paragraff 11B yn darparu pŵer i swyddogion cofrestru i ofyn am dystiolaeth bellach er mwyn gwirhau pwy yw'r ceisydd. Mae paragraff 11C yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud â phrosesu

gwybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â cheisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Mae rheoliad 21 yn diwygio rheoliadau 56B, 56C a 56D yn Rhan 4 (pleidleiswyr absennol) o Reoliadau 2001 fel bod darpariaethau sy'n cyfateb i'r rheini a nodir yn rheoliad 20 yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Rhan 6 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn 2025 a Rheoliadau 2001.

Mae rheoliad 23 yn diwygio erthygl 141 (ceisiadau, hysbysiadau a llofnodion electronig) o Orchymyn 2025 fel bod ardystiad a roddir o dan baragraff newydd 11B(5) o Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd) wedi ei gynnwys ym mharagraff (1) ac yn egluro nad yw'r gofynion o ran llofnod ym mharagraffau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd, y mae'r gofynion ar eu cyfer wedi eu nodi yn Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd).

Mae rheoliad 24 yn diwygio paragraffau 9 ac 11 o Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd) i Orchymyn 2025 er mwyn caniatáu i berson gyflwyno cais i bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd hyd at 5 p.m. ar ddiwrnod y pôl mewn amgylchiadau pan na fo cais cynharach wedi dod i law'r swyddog cofrestru cyn dyddiad cau perthnasol oherwydd diffyg technegol yng ngwasanaeth digidol y DU.

Mae rheoliadau 26 a 27 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2001 er mwyn egluro'r amgylchiadau pryd y mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys i geisiadau pleidleisio absennol datganoledig perthnasol, a phryd nad ydynt yn gymwys i geisiadau o'r fath.

Mae rheoliad 28 yn diwygio rheoliad 56 o Reoliadau 2001 er mwyn caniatáu i berson gyflwyno cais i bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru hyd at 5 p.m. ar ddiwrnod y pôl mewn amgylchiadau pan na fo cais cynharach wedi dod i law'r swyddog cofrestru cyn dyddiad cau perthnasol oherwydd diffyg technegol yng ngwasanaeth digidol y DU.

Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â diwygiadau a wneir gan Ddeddf 2025 a'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 30 yn darparu bod cais pleidleisio absennol datganoledig neu gais pleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy datganoledig a wneir cyn 3 Tachwedd 2026 ("diwrnod perthnasol"), ond nas penderfynir erbyn y diwrnod hwnnw, i'w drin fel pe na bai wedi ei wneud.

Mae rheoliad 31 yn gwneud darpariaethau ar gyfer terfynu hawlogaethau penodol i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig. Pan fo gan berson hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy gadwedig, daw hawlogaeth y person i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol.

Mae rheoliad 32 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â phleidleiswyr drwy'r post presennol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ar yr adeg y daw'r terfyn newydd ar y cyfnod hwyaf y gall person wneud cais am bleidlais drwy'r post amdano i rym. Bydd y trefniadau trosiannol yn gymwys i bleidleiswyr drwy'r post sydd â hawlogaeth, cyn y diwrnod perthnasol, naill ai i bleidlais drwy'r post ddatganoledig, neu i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig (ond dim ond pan na fo ganddynt hefyd hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy

gadwedig) sy'n para am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodol a fyddai'n dod i ben ar ôl y 31 Ionawr 2029 ar ôl y diwrnod perthnasol. O dan reoliad 32(4), bydd y personau hyn yn parhau i allu pleidleisio drwy'r post hyd nes pa un bynnag o'r canlynol sydd hwyraf: (a) y trydydd 31 Ionawr ar ôl y diwrnod perthnasol neu "y dyddiad adnewyddu llofnod" os yw hwn yn gynt; neu (b) os yw'n hwyrach, y dyddiad y daw hawlogaeth person i bleidlais drwy'r post gadwedig, os oes ganddo un, i ben. Y dyddiad adnewyddu llofnod yw'r dyddiad erbyn pryd y byddai fel arfer yn ofynnol i'r swyddog cofrestru anfon hysbysiad at y pleidleisiwr drwy'r post yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu llofnod newydd (o dan y darpariaethau cyfredol ar gyfer adnewyddu llofnod, rhaid anfon yr hysbysiad hwn erbyn 31 Ionawr mewn unrhyw flwyddyn os yw llofnod person sydd ar gofnod yn fwy na phum mlwydd oed). Ni fydd yr hysbysiad y mae fel arfer yn ofynnol iddo gael ei anfon yn ofynnol os mai unig hawlogaeth y person i bleidleisio fel pleidleisiwr absennol yw pleidlais drwy'r post a fydd yn dod i ben ar y dyddiad adnewyddu llofnod o dan y darpariaethau trosiannol. Rhaid i'r swyddog cofrestru, cyn diwedd y cyfnod y mae gan bleidleisiwr drwy'r post bleidlais drwy'r post amdano, anfon hysbysiad sy'n rhoi gwybod i'r person am y dyddiad y daw ei hawlogaeth i bleidlais drwy'r post i ben ac yn darparu gwybodaeth am sut i wneud cais newydd i bleidleisio drwy'r post.

Mae rheoliad 33 yn darparu ar gyfer cysoni'r dyddiadau adnewyddu llofnod pan fo gan berson hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig a bo'r dyddiadau adnewyddu llofnod ar gyfer yr hawlogaethau yn wahanol. Daw'r dyddiadau adnewyddu llofnod a gysonwyd i ben ar y dyddiad adnewyddu llofnod ar gyfer hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig y person.

Mae rheoliad 34 yn ymdrin ag anghysondebau o ran pleidlais drwy'r post a therfynu hawlogaethau penodol i bleidlais drwy'r post ddatganoledig. Pan fo gan berson hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy'r post gadwedig a, chyn y diwrnod perthnasol, fo anghysondeb yn y cyfeiriadau pleidlais drwy'r post a ddelir yn y cofnodion a gedwir gan y swyddog cofrestru ar gyfer yr hawlogaethau hynny, daw hawlogaeth y person i bleidlais drwy'r post ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol. Cyn y diwrnod perthnasol, pan fo'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, bydd y swyddog cofrestru yn ysgrifennu at y person i roi gwybod iddo am yr anghysondeb ac i roi gwybod iddo bod rhaid i'r cyfeiriadau fod yr un fath os yw'r hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig a'r hawlogaeth i bleidlais drwy'r post gadwedig i fod yn eu lle o'r diwrnod perthnasol. Rhaid i'r swyddog cofrestru hefyd roi gwybod i'r person, os na wneir cais newydd i bleidleisio drwy'r post cyn y diwrnod perthnasol ac os na phenderfynir cais o'r fath erbyn y diwrnod hwnnw, a bod yr anghysondeb o ran y cyfeiriad yn parhau, y daw hawlogaeth y person i bleidlais absennol ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol.

Mae rheoliad 35 yn ymdrin ag anghysondebau o ran llofnod pleidlais drwy'r post. Pan fo gan berson hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy'r post gadwedig, a bo anghysondeb yn y llofnodion a ddelir yn y cofnodion a gedwir gan y swyddog cofrestru ar gyfer yr hawlogaethau hynny, gydag effaith o'r diwrnod perthnasol, rhaid i'r swyddog cofrestru gymhwyso'r llofnod o hawlogaeth y person i bleidlais drwy'r post gadwedig fel yr unig lofnod a gedwir yng nghofnod y swyddog cofrestru ar gyfer yr hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig a'r hawlogaeth i bleidlais drwy'r post gadwedig.

Mae rheoliad 36 yn ymdrin ag anghysondebau o ran hepgoriad llofnod a therfynu hawlogaethau penodol i bleidlais absennol ddatganoledig. Pan fo gan berson hawlogaeth i bleidlais absennol ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais absennol gadwedig, a bo

hepgoriad llofnod wedi ei roi mewn cysylltiad ag un o'r hawlogaethau yn unig, daw hawlogaeth y person i bleidlais absennol ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol. Cyn y diwrnod perthnasol, pan fo'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, bydd y swyddog cofrestru yn ysgrifennu at y person i roi gwybod iddo am yr anghysondeb ac i roi gwybod iddo bod rhaid i'r person naill ai cael hepgoriad llofnod yn ei le ar gyfer y ddwy hawlogaeth neu ddim un o'r hawlogaethau os yw'r person i gael hawlogaeth i bleidlais absennol gadwedig a hawlogaeth i bleidlais absennol ddatganoledig yn eu lle ar yr un pryd ar y diwrnod perthnasol. Rhaid i'r swyddog cofrestru hefyd roi gwybod i'r person, os na wneir cais newydd cyn y diwrnod perthnasol ac os na phenderfynir cais o'r fath erbyn y diwrnod hwnnw, ac os yw'r anghysondeb yn parhau, y daw hawlogaeth y person i bleidlais absennol ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol.

Mae rheoliad 37 yn ymdrin ag anghysondebau o ran enw a chyfeiriad dirprwy a therfynu hawlogaethau penodol i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig. Pan fo gan berson benodiad dirprwy datganoledig a phenodiad dirprwy cadwedig, a bo anghysondeb o ran yr enwau dirprwy, y cyfeiriadau dirprwy neu'r ddau a ddelir yn y cofnodion a gedwir gan y swyddog cofrestru ar gyfer y penodiadau hynny, yna daw hawlogaeth y person i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol. Cyn y diwrnod perthnasol, pan fo'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, bydd y swyddog cofrestru yn ysgrifennu at y person i roi gwybod iddo am yr anghysondeb ac i roi gwybod iddo bod rhaid i fanylion y penodiad dirprwy datganoledig a'r penodiad dirprwy cadwedig fod yr un fath os yw'r person i gael y ddau benodiad yn eu lle ar yr un pryd ar y diwrnod perthnasol. Rhaid i'r swyddog cofrestru hefyd roi gwybod i'r person, os na wneir cais newydd cyn y diwrnod perthnasol ac os na phenderfynir cais o'r fath erbyn y diwrnod hwnnw, ac os yw'r anghysondeb yn parhau, y daw hawlogaeth y person i bleidlais absennol ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol.

Mae rheoliadau 38 a 39 yn ymdrin ag anghysondebau o ran pleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy a therfynu hawlogaethau penodol i bleidlais drwy'r post ddatganoledig neu hawlogaethau penodol i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig. Pan fo gan berson hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig, a hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig, daw hawlogaeth y person i bleidlais drwy'r post ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol. Pan fo gan berson hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy'r post gadwedig, daw hawlogaeth y person i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol. Cyn y diwrnod perthnasol, pan fo'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, bydd y swyddog cofrestru yn ysgrifennu at y person i roi gwybod iddo am yr anghysondeb ac i roi gwybod iddo bod rhaid i'r trefniadau datganoledig a chadwedig fod yr un fath os yw'r person i gael y ddau yn eu lle ar yr un pryd ar y diwrnod perthnasol. Rhaid i'r swyddog cofrestru hefyd roi gwybod i'r person, os na wneir cais newydd cyn y diwrnod perthnasol ac os na phenderfynir cais o'r fath erbyn y diwrnod hwnnw, ac os yw'r anghysondeb yn parhau, y daw hawlogaeth y person i bleidlais drwy'r post ddatganoledig neu ei hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig, yn ôl y digwydd, i ben ar y diwrnod perthnasol.

Mae Rhan 8 yn gwneud nifer o ddiwygiadau amrywiol i Orchymyn 2025.

Mae rheoliad 41 yn egluro erbyn pa amser y mae'n rhaid talu treuliau etholiad ymgeisydd. Yr amser hwn yw 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y datgenir canlyniad neu ganlyniadau'r etholiad.

Mae rheoliad 42 yn gwneud diwygiad i baragraff 14(3) o Atodlen 2 (papur pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd) i Orchymyn 2025 i egluro nad yw'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ddyroddi papur pleidleisio drwy'r post newydd neu bapurau pleidleisio drwy'r post newydd pan fo'r dogfennau y cyfeirir atynt yn dod i law ar ôl 5.00 p.m. ar ddiwrnod y pôl.

Mae rheoliad 43 yn gwneud mân ddiwygiadau i Atodlen 5 (rheolau etholiadau'r Senedd) i Orchymyn 2025.

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 6 i Orchymyn 2025 (taliadau etc. nad ydynt i'w hystyried yn rhoddion), mae rhoddion i ymgeiswyr unigol o lai na £500 i'w diystyru. Mae rheoliad 44 yn gwneud mân ddiwygiadau i baragraff 6 o Atodlen 6 (gwahardd derbyn rhoddion oddi wrth roddwyr nas caniateir) fel nad yw'r gofynion adrodd ar gyfer rhoddion perthnasol oddi wrth roddwyr a ganiateir ond yn gymwys mewn perthynas â rhoddion o fwy na £500.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 91

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

SENEDD CYMRU

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed *18 Mawrth 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn, drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(a) adrannau 53(1)(c), (3) a (9)(b) a 201(3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**), a pharagraffau 1(2) a (5A), 3, 5ZB(1), (2) a (5), 5A(1), (3) a (4) a 13(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno;

(b) paragraffau 3(1)(b) a (2)(c), 4(1)(b) a (2)(c), 6(7) i (9)(**2**) a 7B o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000(**3**);

(**1**) 1983 p. 2. Diwygiwyd adran 53(3) gan adran 24 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) ("DCB 1985") a pharagraff 13 o Atodlen 4 iddi. Mewnosodwyd adran 53(9)(b) gan adran 7(10) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4). Mewnosodwyd adran 201(3) gan baragraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) ("Deddf 2000") ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(7) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41). Diwygiwyd paragraff 1(2) o Atodlen 2 gan baragraff 24(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 2000 a chan baragraff 20(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 (p. 6). Mewnosodwyd paragraff 1(5A) o Atodlen 2 gan baragraff 3(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) ac fe'i diwygiwyd gan adran 1(2) o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27) ("Deddf 2025"). Mewnosodwyd paragraff 5ZB o Atodlen 2 gan adran 1(3) o Ddeddf 2025. Mewnosodwyd paragraff 5A o Atodlen 2 gan adran 11(a) o DCB 1985 a pharagraff 8 o Atodlen 2 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan adran 15(1) o Ddeddf 2000 a pharagraff 11(2) o Atodlen 6 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddo.

(**2**) Mae'r darpariaethau hyn yn darparu bod rhaid bodloni gofynion "rhagnodedig". Ystyr "rhagnodedig" yw wedi eu nodi mewn rheoliadau, yn rhinwedd adran 202(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 50), fel y'i darllenir gyda pharagraff 1(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2).

(**3**) 2000 p. 2. Diwygiwyd paragraff 3(1)(b) o Atodlen 4 gan adran 14(1)(a) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) ("DGE 2006"), gan baragraff 2(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Etholiadau 2022 ac mae wedi ei ddiwygio yn rhagolygol gan adran 1(5)(a) o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27) o 3 Tachwedd 2026. Diwygiwyd paragraff 3(2)(c) gan adran 14(1)(b) o DGE 2006. Diwygiwyd paragraff 4(1)(b) o Atodlen 4 gan adran 14(2)(a) o DGE 2006. Diwygiwyd paragraff 4(2)(c) o Atodlen 4 gan adran 14(2)(b) o DGE 2006. Mewnosodwyd paragraff 7B o Atodlen 4 gan adran 14(4) ac (8) o DGE 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddo.

(c) adrannau 13(1)(a)(**4**), (2)(a) a (4), 13B(1) a (2) a 157(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**5**).

Yn unol ag adran 53(10A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**6**) ac adran 13B(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**7**), mae Gweinidogion Cymru wedi cael cytundeb un o Weinidogion y Goron i wneud y darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 7(1) a (2)(e) ac (f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**8**), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**9**) ac adrannau 13(7) a 13B(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**10**) gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1
CYFFREDINOL

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Mawrth 2026.

(3) Daw rheoliadau 3 i 28 i rym ar 3 Tachwedd 2026.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cais pleidleisio absennol datganoledig perthnasol" ("*relevant devolved absent voting application*") yw cais, gan gynnwys cais a gwblheir yn rhannol, a wneir o dan—

(**4**) Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 13(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) er mwyn gwneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**5**) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ("Deddf 2017"). Fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), gan baragraff 29 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) a chan adran 10(3) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4). Mewnosodwyd adran 13B gan adran 3 o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27). Diwygiwyd adran 157 gan baragraffau 1 ac 8 o Atodlen 6 i Ddeddf 2017.

(**6**) Mewnosodwyd adran 53(10A) gan adran 7(11) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

(**7**) Mewnosodwyd adran 13B(5) gan adran 3 o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27).

(**8**) 2000 p. 41. Amnewidiwyd adran 7(2)(f) gan baragraff 93 o Atodlen 1 i O.S. 2007/1388 ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan adran 5(3) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) a pharagraff 6(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5).

(**9**) Amnewidiwyd adran 201(2) gan adran 24 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) a pharagraff 69 o Atodlen 4 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(b) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41), gan adran 13(2) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2014 (p. 13), gan baragraff 1(9)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a chan O.S. 1991/1728.

(**10**) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

(a) erthygl 6, 7, 9 neu 10 o Orchymyn 2025 mewn perthynas ag etholiad i'r Senedd, neu etholiadau'r Senedd, neu

(b) paragraff 3, 4 neu 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**11**) mewn perthynas ag etholiad llywodraeth leol, neu etholiadau llywodraeth leol, yng Nghymru;

ystyr "Deddf 2000" ("*2000 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000;

ystyr "etholiad llywodraeth leol" ("*local government election*") yw'r etholiad cynghorwyr ar gyfer unrhyw ward etholiadol neu unrhyw ward gymunedol yng Nghymru neu, yn achos cymuned yng Nghymru lle nad oes unrhyw wardiau, y gymuned y cynhelir yr etholiad cynghorwyr ar ei chyfer o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**12**).

ystyr "etholiad i'r Senedd" ("*Senedd election*") yw etholiad i Senedd Cymru;

ystyr "Gorchymyn 2025" ("*2025 Order*") yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025(**13**);

ystyr "Rheoliadau 2001" ("*2001 Regulations*") yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**14**).

RHAN 2

CYFYNGU AR Y CYFNOD Y GALL PERSON WNEUD CAIS AM BLEIDLAIS DRWY'R POST AMDANO

Cyflwyniad i Ran 2

3. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaeth sydd—

(a) yn cyfyngu ar y cyfnod y gall person wneud cais i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad i'r Senedd amdano, a

(b) yn ymwneud â gweithredu'r diwygiadau a wneir i Atodlen 4 i Ddeddf 2000 gan Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025(**15**), sy'n cyfyngu ar y cyfnod y gall person wneud cais i bleidleisio drwy'r post mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru amdano.

Etholiadau'r Senedd

4. Mae Gorchymyn 2025 wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 5 i 7.

(**11**) Diwygiwyd paragraff 3 gan adran 261(1) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ("Deddf 2004") ac Atodlen 27 iddi, gan adrannau 10, 14 a 74 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) ("DGE 2006") ac Atodlen 1 iddi, gan adrannau 20 a 34(5) o Ddeddf Gwasanaethau Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol Lleol (Yr Alban) 2006 (dsa 14) ("Deddf 2006"), gan adran 9 o Ddeddf Etholiadau'r Alban (Etholfraint a Chynrychiolaeth) 2020 (dsa 6), a chan adran 3 o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) ("Deddf 2022") ac Atodlen 3 iddi. Mae paragraff 3 wedi ei ddiwygio yn rhagolygol gan adran 1(5) o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27) o 3 Tachwedd 2026. Diwygiwyd paragraff 4 gan adrannau 10(2) a 14 o DGE 2006 ac Atodlen 1 iddi, a chan adran 20 o Ddeddf 2006. Diwygiwyd paragraff 6 gan adran 261(1) o Ddeddf 2004 a pharagraff 164 o Atodlen 27 iddi, gan adran 3 o Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 (p. 6), gan adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) a pharagraff 8 o Atodlen 2 iddi, a chan adran 6 o Ddeddf 2022 a pharagraff 7 o Atodlen 4 iddi.

(**12**) 1972 p. 70.

(**13**) O.S. 2025/864 (Cy. 150).

(**14**) O.S. 2001/341; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2001/1700, 2002/1871, 2006/752, 2006/2910, 2008/1901, 2009/725, 2013/3198, 2015/1971, 2016/211, 2016/694, 2018/312, 2018/1310, 2019/1451, 2020/50, 2021/391, 2021/1265, 2022/175, 2022/1382, 2023/1147, 2023/1150, 2023/1225, 2023/1406, 2024/43, 2024/665 a 2024/991.

(**15**) 2025 p. 27.

Diwygio erthygl 6 (pleidlais absennol yn etholiadau'r Senedd ar gyfer cyfnod penodol neu amhenodol)

5.—(1) Mae erthygl 6 (pleidlais absennol yn etholiadau'r Senedd ar gyfer cyfnod penodol neu amhenodol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd o flaen erthygl 6, hepgorer "ar gyfer cyfnod penodol neu amhenodol".

(3) Ym mharagraff (1), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), hepgorer "pa un ai am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodol a bennir yn y cais,".

(4) Ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

"(1A) Mae unrhyw gais a ganiateir o dan baragraff (1) i'w ganiatáu am—

(a) y cyfnod sy'n dod i ben â'r trydydd 31 Ionawr ar ôl y dyddiad y caniateir y cais, neu

(b) unrhyw gyfnod byrrach a bennir yn y cais."

(5) Ym mharagraff (4)—

(a) hepgorer is-baragraff (a);

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl "post, y" mewnosoder "cyfnodau y caniateir iddynt wneud hynny amdanynt a'r";

(c) yn is-baragraff (c), ar ôl "ddirprwy," mewnosoder "ai ceisiadau oeddent i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod amhenodol ynteu gyfnod penodol a chan bennu'r cyfnod hwnnw, ac".

(6) Ym mharagraff (5)—

(a) hepgorer y "neu" ar ddiwedd is-baragraff (d);

(b) yn is-baragraff (e)—

(i) hepgorer "drwy'r post neu";

(ii) yn lle'r "." ar ddiwedd yr is-baragraff, rhodder ", neu";

(c) ar ôl is-baragraff (e), mewnosoder—

"(f) yn achos person y dangosir yn y cofnod ei fod yn pleidleisio drwy'r post, unwaith y bydd y cyfnod y mae gan y person hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post amdano, yn unol â pharagraff (1A), wedi dod i ben."

(7) Ym mharagraff (8), hepgorer ", pa un ai am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodol fel a bennir yn y cais".

(8) Ar ôl paragraff (8), mewnosoder—

"(8A) Mae paragraff (1A) yn gymwys i gais o dan is-baragraff (8) i bleidleisio drwy'r post, fel y mae'n gymwys i gais o dan baragraff (1)."

Diwygio erthygl 10 (pleidleisio fel dirprwy yn etholiadau'r Senedd)

6.—(1) Mae erthygl 10 (pleidleisio fel dirprwy yn etholiadau'r Senedd) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (4)(a), hepgorer "pa un a yw hynny am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodol a bennir yng nghais y person,".

(3) Ar ôl paragraff (5), mewnosoder—

"(5A) Mae unrhyw gais a ganiateir o dan baragraff (4)(a) i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy i'w ganiatáu am—

(a) y cyfnod sy'n dod i ben â'r trydydd 31 Ionawr ar ôl y dyddiad y caniateir y cais, neu

(b) unrhyw gyfnod byrrach a bennir yn y cais."

(4) Yn lle paragraff (6)(a), rhodder—

"(a) y cyfnodau y caniateir iddynt bleidleisio drwy'r post fel dirprwy amdanynt, yn unol â pharagraff (5A), a".

(5) Ym mharagraff (10)(b), yn lle "am gyfnod penodol, unwaith y daw'r cyfnod hwnnw i ben" rhodder ", unwaith y bydd y cyfnod y mae gan y person hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy amdano, yn unol â pharagraff (5A), wedi dod i ben".

Diwygio Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd)

7.—(1) Mae Atodlen 1 i Orchymyn 2025 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1—

(a) yn is-baragraff (1), hepgorer "ar gyfer cyfnod penodol neu amhenodol";

(b) yn is-baragraff (5), yn lle paragraff (a), rhodder—

"(a) o dan erthygl 6(1), 9(6) neu 10(4)(a)—

(i) am gyfnod amhenodol,

(ii) am y cyfnod hwyaf fel y pennir yn erthygl 6(1A)(a) neu 10(5A)(a), neu

(iii) am y cyfnod a bennir yn y cais, neu".

(3) Ym mharagraff 12 (caniatáu neu wrthod ceisiadau)—

(a) ar ôl is-baragraff (1), mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r hysbysiad o dan is-baragraff (1) gynnwys—

(a) os yw'r hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiad penodol, diwrnod y pôl y cafodd hawlogaeth yr etholwr i bleidleisio drwy'r post ei rhoi ar ei gyfer,

(b) fel arall, y dyddiad y daw hawlogaeth yr etholwr i bleidleisio drwy'r post i ben, yn unol ag erthygl 6(1A) neu 10(5A), fel y bo'n berthnasol.";

(b) ar ôl is-baragraff (8), mewnosoder—

"(8A) Mae is-baragraffau (8B) i (8D) yn gymwys os—

(a) oes cais wedi ei wneud o dan erthygl 6, 7, 9 neu 10, a

(b) naill ai—

(i) bo paragraff 2(2) yn gymwys i'r cais hwnnw, neu y byddai wedi bod yn gymwys iddo pe bai paragraff 2(3) wedi ei anwybyddu, neu

(ii) bo paragraff 3(1) a (2) yn gymwys i'r cais hwnnw, neu y byddent wedi bod yn gymwys iddo pe bai paragraff 3(3) wedi ei anwybyddu.

(8B) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1) i un o'r mathau canlynol o geiswyr hefyd gynnwys datganiad y bydd papurau pleidleisio yn cael eu hanfon i gyfeiriad danfon papurau pleidleisio drwy'r post—

(a) ceisydd sydd wedi ei gofrestru yn unol â datganiad o wasanaeth;

(b) ceisydd sydd wedi ei gofrestru yn unol â datganiad o gysylltiad lleol (o fewn ystyr adran 7B o Ddeddf 1983(**16**));

(c) ceisydd sy'n forwr masnachol (o fewn ystyr adran 6 o Ddeddf 1983(**17**));

(d) ceisydd sydd â chofnod dienw.

(8C) Os nad yw is-baragraffau (a) i (d) o is-baragraff (8B) yn gymwys i'r ceisydd, rhaid i'r swyddog cofrestru, yn ogystal â hysbysu'r ceisydd o dan is-baragraff (1), (4), (5) neu (8), hysbysu'r ceisydd mewn ysgrifen—

(a) bod y cais wedi ei ganiatáu, ei wrthod neu ei ddiystyru, a

(b) pan fo'r cais wedi ei ganiatáu, y bydd papurau pleidleisio yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad danfon papurau pleidleisio drwy'r post.

(8D) Rhaid danfon hysbysiad o dan baragraff (8C)—

(a) os yw paragraff (8A)(b)(ii) yn gymwys a bo'r hysbysiad i'w ddanfon at berson y dangosir ei fod yn pleidleisio drwy'r post yn y cofnod a gedwir o dan erthygl 8(1)(a), i'r cyfeiriad a ddangosir yn y cofnod hwnnw;

(b) fel arall—

(i) i'r cyfeiriad a ddatganwyd yn y cais yn unol â pharagraff 1(1)(b), neu

(ii) i gyfeiriad y dirprwy a ddatganwyd yn y cais yn unol â pharagraff 1(1)(c).

(8E) Yn is-baragraffau (8B) ac (8C), ystyr y "cyfeiriad danfon papurau pleidleisio drwy'r post" yw—

(a) os yw is-baragraff (8A)(b)(i) yn gymwys, y cyfeiriad a ddatganwyd yn y cais yn unol â pharagraff 1(1)(d);

(b) os yw is-baragraff (8A)(b)(ii) yn gymwys, y cyfeiriad gwahanol a ddisgrifir ym mharagraff 3(1) a (2).

(8F) Yn is-baragraff (8B) mae i "datganiad o wasanaeth" yr un ystyr ag a roddir i "service declaration" yn adran 202(1) o Ddeddf 1983(**18**).""

(4) Ar ôl paragraff 15 (ymholiadau gan swyddog cofrestru), mewnosoder—

"Gofyniad i hysbysu etholwyr a dirprwyon penodol fod hawlogaeth i bleidlais drwy'r post i ddod i ben

15A.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn cysylltiad ag etholwr neu ddirprwy sy'n parhau i fod â hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad i'r Senedd yn rhinwedd hawlogaeth a roddwyd am y cyfnod hwyaf ("y person perthnasol").

(2) Cyn diwedd y cyfnod hwyaf, rhaid i'r swyddog cofrestru anfon at y person perthnasol—

(a) hysbysiad am y dyddiad y daw hawlogaeth y person perthnasol i bleidleisio drwy'r post i ben, a

(**16**) Mewnosodwyd adran 7B gan adran 6 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) a gwnaed diwygiadau perthnasol iddi gan adran 19 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), gan adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) a pharagraff 2(2) o Atodlen 2 iddi, gan baragraff 1(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a chan adran 10(9) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).

(**17**) Diwygiwyd adran 6 gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2).

(**18**) Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 202(1) gan adran 6 o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi.

(b) gwybodaeth am sut i wneud cais newydd i bleidleisio drwy'r post, fel etholwr neu fel dirprwy.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "cyfnod hwyaf" yw'r cyfnod hwyaf fel y pennir yn erthygl 6(1A)(a) neu 10(5A)(a)."

(5) Ym mharagraff 16 (gofyniad i ddarparu llofnodion newydd bob pum mlynedd), cyn is-baragraff (1), mewnosoder—

"(A1) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i etholwr na dirprwy i'r graddau bod yr etholwr neu'r dirprwy hwnnw'n parhau i fod â hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad i'r Senedd."

Etholiadau llywodraeth leol

8.—(1) Mae Rhan 4 o Reoliadau 2001 (pleidleiswyr absennol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 57 (caniatáu neu wrthod ceisiadau)—

(a) ym mharagraff (1A), hepgorer "Where a registration officer grants an application to vote by post at a parliamentary election or a local government election in England,"(**19**);

(b) ym mharagraff (7)(a), yn lle'r geiriau o "under Schedule 4" hyd at y diwedd rhodder "has been made under Schedule 4;"(**20**).

(3) Yn rheoliad 60ZA(1) (gofyniad i hysbysu etholwyr a dirprwyon penodol fod hawlogaeth i bleidlais drwy'r post i ddod i ben), hepgorer "in England"(**21**).

(4) Yn rheoliad 60A(A1) (gofyniad i ddarparu llofnodion newydd ar ysbeidiau), hepgorer "in England"(**22**).

RHAN 3

GOFYNION CYFFREDINOL AR GYFER CEISIADAU PLEIDLEISIO ABSENNOL DATGANOLEDIG PERTHNASOL – RHIF YSWIRIANT GWLADOL

Cyflwyniad i Ran 3

9. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cais pleidleisio absennol datganoledig perthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gynnwys rhif yswiriant gwladol y ceisydd, neu'r rheswm pam nad oes modd iddo ei ddarparu.

Etholiadau'r Senedd

10. Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Orchymyn 2025 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd), ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder—

"(aa) rhif yswiriant gwladol y ceisydd neu, os nad oes modd i'r ceisydd ddarparu'r wybodaeth honno, y rheswm pam nad oes modd i'r ceisydd wneud hynny,".

(**19**) Mewnosodwyd rheoliad 57(1A) gan reoliad 5(9)(a) o O.S. 2023/1147.
(**20**) Mewnosodwyd rheoliad 57(7) gan reoliad 5(9)(d) o O.S. 2023/1147.
(**21**) Mewnosodwyd rheoliad 60ZA gan reoliad 5(10) o O.S. 2023/1147.
(**22**) Mewnosodwyd rheoliad 60A(A1) gan reoliad 5(11) o O.S. 2023/1147.

Etholiadau llywodraeth leol

11. Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 12 a 13.

Diwygio Rhan 1 (cyffredinol, dehongli ac amrywiol)

12. Yn rheoliad 3(1) (dehongli), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

> ""relevant devolved absent voting applications" means an application (including a partially completed application) under paragraph 3, 4 or 6 of Schedule 4 to 2000 Act in relation to a local government election, or local government elections, in Wales;".

Diwygio Rhan 4 (pleidleiswyr absennol)

13. Yn rheoliad 51(2)(aa) o Reoliadau 2001 (gofynion cyffredinol ar gyfer ceisiadau am bleidlais absennol)(**23**), ar ôl "for a relevant absent voting application," mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application".

RHAN 4

DEFNYDDIO GWASANAETH DIGIDOL Y DU AR GYFER CEISIADAU PLEIDLEISIO ABSENNOL DATGANOLEDIG PERTHNASOL

Etholiadau'r Senedd

14. Mae Gorchymyn 2025 wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 15 ac 16.

Diwygio Rhan 1 (cyffredinol)

15. Yn erthygl 2(1) (dehongli), ym mharagraff (1), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

> "ystyr "cais pleidleisio absennol" ("*absent voting application*") yw cais, gan gynnwys cais a gwblheir yn rhannol, a wneir o dan erthygl 6 (pleidlais absennol yn etholiadau'r Senedd), 7 (pleidlais absennol mewn etholiad penodol i'r Senedd), 9 (dirprwyon yn etholiadau'r Senedd) neu 10 (pleidleisio fel dirprwy yn etholiadau'r Senedd);
>
> mae i "gwasanaeth digidol y DU" yr un ystyr ag a roddir i "UK digital service" yn adran 13B(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;"(**24**)."

Diwygio Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd)

16. Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 (gofynion cyffredinol ar gyfer ceisiadau am bleidlais absennol), ar ôl is-baragraff (6), mewnosoder—

> "(6A) Os, yn rhinwedd trefniadau a wneir gan Weinidog y Goron, gwneir cais pleidleisio absennol drwy wasanaeth digidol y DU—
>
> (a) caiff Gweinidog y Goron gwblhau'r cais yn rhannol gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y ceisydd fel rhan o gais, neu gais a gwblheir

(**23**) Mewnosodwyd rheoliad 51(2)(aa) gan reoliad 5(3)(a) o O.S. 2023/1147.
(**24**) Mewnosodwyd adran 13B(8) gan adran 3 o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27).

yn rhannol, a wneir o dan adran 10ZC neu 10ZD o Ddeddf 1983(**25**) i'w gofrestru mewn cofrestr etholwyr, neu i addasu cofrestr etholwyr, pan fo'r cais hwnnw wedi ei wneud drwy wasanaeth digidol y DU neu wedi ei gwblhau gan ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw,

(b) rhaid i'r cais gynnwys llun neu sgan electronig sy'n cydymffurfio o lofnod y ceisydd os yw'n ofynnol i'r cais gynnwys llofnod, ac

(c) rhaid i Weinidog y Goron—

(i) gofyn am i'r ceisydd ddarparu ei enw blaenorol mwyaf diweddar, os oes ganddo un, a

(ii) darparu eglurhad o'r diben y defnyddir yr wybodaeth ar ei gyfer.

(6B) Yn is-baragraff (6A)(b), ystyr "llun neu sgan electronig sy'n cydymffurfio o lofnod y ceisydd" yw—

(a) bod y llofnod a gynhwysir yn y llun neu sgan electronig yn cydymffurfio â gofynion is-baragraff (3)(a), a

(b) bod y llun neu sgan electronig o'r llofnod yn ddigon clir a diamwys i gydymffurfio â gofynion is-baragraff (3)(a).

(6C) Os nad oes modd i geisydd ddarparu rhif yswiriant gwladol yn unol ag is-baragraff (1)(aa) fel rhan o'r cais, caiff y ceisydd ddarparu copi o unrhyw un o'r dogfennau a restrir ym mharagraff 11B(2) i (4)(**26**).

(6D) Caniateir i ddogfen a ddarperir o dan is-baragraff (6C) gael ei throsglwyddo gan geisydd drwy ddulliau electronig.

(6E) Rhaid i Weinidog y Goron anfon at y swyddog cofrestru—

(a) unrhyw gais pleidleisio absennol sy'n dod i law Gweinidog y Goron, yn ddarostyngedig i is-baragraff (6F),

(b) enw blaenorol y ceisydd (os darparwyd unrhyw un),

(c) unrhyw ddogfennaeth gopi a ddarparwyd gan y ceisydd yn unol ag is-baragraff (6C), a

(d) rhif cyfeirnod unigryw i'r cais hwnnw.

(6F) Os yw cais pleidleisio absennol a wneir drwy wasanaeth digidol y DU yn unol ag is-baragraff (6A) yn cynnwys rhif yswiriant gwladol y ceisydd—

(a) caiff Gweinidog y Goron anfon y cais hwnnw at y swyddog cofrestru heb y rhif yswiriant gwladol, a

(b) pan fo Gweinidog y Goron yn gwneud hynny, rhaid iddo ddangos i'r swyddog cofrestru fod rhif yswiriant gwladol wedi ei gynnwys pan wnaed y cais gan y ceisydd."

Etholiadau llywodraeth leol

17. Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 18 a 19.

(**25**) Mewnosodwyd adran 10ZC gan adran 1(1) o Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 (p. 6) ("Deddf 2013") ac fe'i diwygiwyd gan adran 6(2) o Ddeddf yr Alban 2016 (p. 11) ("Deddf 2016") ac adran 7(2) i (4) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ("Deddf 2017"). Ychwanegwyd adran 10ZD gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 ac fe'i diwygiwyd gan adran 6(3) o Ddeddf 2016 ac adran 7(6) i (8) o Ddeddf 2017.

(**26**) Mae paragraff 11B o Atodlen 1 i Orchymyn 2025 wedi ei fewnosod gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rhan 1 (cyffredinol, dehongli ac amrywiol)

18. Yn rheoliad 3(1) (dehongli)(**27**), yn y diffiniad o "digital service", ym mharagraff (a), ar y diwedd mewnosoder "or relevant devolved absent voting applications".

Diwygio Rhan 4 (pleidleiswyr absennol)

19. Yn rheoliad 51 (gofynion cyffredinol ar gyfer ceisiadau am bleidlais absennol)(**28**)—

(a) yng ngeiriau agoriadol paragraff (7), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application";

(b) ym mharagraff (10)(a), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or relevant devolved absent voting application";

(c) yng ngeiriau agoriadol paragraff (11), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application".

RHAN 5

GWIRHAU GWYBODAETH A DDARPERIR MEWN CAIS PLEIDLEISIO ABSENNOL DATGANOLEDIG PERTHNASOL, PŴER I OFYN AM DYSTIOLAETH YCHWANEGOL A PHROSESU GWYBODAETH A DDARPERIR

Etholiadau'r Senedd

20. Yn Atodlen 1 i Orchymyn 2025 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd), ar ôl paragraff 11 (y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau), mewnosoder—

"Gwirhau gwybodaeth a ddarperir mewn cais pleidleisio absennol

11A.—(1) Pan ddaw cais pleidleisio absennol i law heblaw drwy wasanaeth digidol y DU, rhaid i swyddog cofrestru ddatgelu enw neu enwau'r ceisydd, ei gyfeiriad, ei ddyddiad geni a'i rif yswiriant gwladol ("yr wybodaeth cam cyntaf") i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn unrhyw fformat a thrwy unrhyw system seilwaith y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi hysbysu'r swyddog cofrestru amdanynt mewn ysgrifen.

(2) Ar ôl i'r wybodaeth cam cyntaf ddod i law oddi wrth y swyddog cofrestru neu, yn achos cais a wneir gan geisydd drwy wasanaeth digidol y DU neu a gwblheir yn rhannol gan ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw, oddi wrth geisydd, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ddatgelu'r wybodaeth cam cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau.

(3) Os yw'r wybodaeth cam cyntaf wedi ei datgelu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau o dan is-baragraff (2), caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ei chymharu yn erbyn—

(a) enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol unigolion sy'n ymddangos yn y mathau a ganlyn o ddata a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol—

(**27**) Gwnaed diwygiadau perthnasol gan reoliad 3(2)(a)(i) o O.S. 2023/1147 a chan erthygl 8 o O.S. 2024/991 a pharagraff 16(2) o'r Atodlen iddo.
(**28**) Mewnosodwyd paragraffau (7) i (11) gan reoliad 5(3)(c) o O.S. 2023/1147.

(i) data a gedwir at ddibenion swyddogaethau sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol, gan gynnwys yr wybodaeth honno a gedwir ar ran yr Adran Datblygu Cymdeithasol, a

(ii) data sy'n ymwneud â chredyd treth gwaith, credyd treth plant a budd-dal plant, sef gwybodaeth a gedwir ar ran Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, a

(b) unrhyw wybodaeth arall a gynhwysir yn y mathau hynny o ddata sy'n ymwneud â'r wybodaeth a ddatgelir o dan is-baragraff (2).

(4) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ddatgelu canlyniadau cymharu'r wybodaeth cam cyntaf o dan is-baragraff (3) ("yr wybodaeth ail gam") i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

(5) Pan ddaw'r wybodaeth ail gam i law, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ddatgelu'r wybodaeth honno—

(a) i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, neu

(b) i'r swyddog cofrestru y gwnaed y cais iddo neu, yn achos cais a wnaed drwy wasanaeth digidol y DU, i'r swyddog cofrestru a benodir ar gyfer y gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi.

(6) Mae is-baragraff (3) yn gymwys i'r wybodaeth ail gam pan fo wedi ei datgelu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau o dan is-baragraff (5)(a) fel y mae'n gymwys i'r wybodaeth cam cyntaf a ddatgelir o dan is-baragraff (2).

(7) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ddatgelu canlyniadau cymharu'r wybodaeth ail gam o dan is-baragraff (6) ("yr wybodaeth trydydd cam") i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

(8) Pan ddaw'r wybodaeth trydydd cam i law, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol—

(a) cymharu'r wybodaeth trydydd cam â'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais pleidleisio absennol, a

(b) hysbysu'r swyddog cofrestru y gwnaed y cais iddo neu, yn achos cais a wnaed drwy wasanaeth digidol y DU, y swyddog cofrestru a benodir ar gyfer y gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi, o ran a fu i'r gymhariaeth yn is-baragraff 8(a) arwain at gyfatebiaeth.

(9) Pan fydd yn penderfynu'r cais, rhaid i'r swyddog cofrestru ystyried unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, neu unrhyw hysbysiad sy'n dod i law oddi wrtho, yn unol â'r paragraff hwn.

(10) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â chais o dan erthygl 7(2)—

(a) sy'n dod i law'r swyddog cofrestru ar ôl 5.00 p.m. ar y chweched diwrnod cyn diwrnod y pôl yn yr etholiad y gwneir y cais ar ei gyfer, na

(b) os yw paragraff 11(3) neu (3A) yn gymwys.

(11) Yn is-baragraff (1)—

(a) mae i "system seilwaith" yr ystyr a roddir i "infrastructure system" ym mharagraff 7 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**29**);

(**29**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan adran 4(2) o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30) ac Atodlen 1 iddi.

(b) mae'r cyfeiriad at gyfeiriad y ceisydd yn gyfeiriad at y cyfeiriad a gynhwysir yn y cais o dan baragraff 1(1)(b).

Pŵer i ofyn am dystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau pleidleisio absennol pan fo swyddog cofrestru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol

11B.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo swyddog cofrestru, ar ôl i gais pleidleisio absennol ddod i law, yn ystyried bod angen tystiolaeth ychwanegol i wirhau pwy yw'r ceisydd.

(2) Caiff y swyddog cofrestru ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu i'r swyddog cofrestru gopi, neu pan fo'r swyddog cofrestru'n ystyried ei bod yn briodol, y gwreiddiol, o un o'r dogfennau a ganlyn—

(a) pasbort y ceisydd;

(b) cerdyn adnabod y ceisydd a ddyroddwyd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd;

(c) dogfen fewnfudo fiometrig y ceisydd a ddyroddwyd yn y Deyrnas Unedig yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 5 o Ddeddf Ffiniau'r DU 2007(**30**);

(d) cerdyn adnabod etholiadol y ceisydd a ddyroddwyd yng Ngogledd Iwerddon;

(e) trwydded yrru cerdyn llun y ceisydd a roddwyd yn y Deyrnas Unedig neu drwydded yrru a roddwyd gan Diriogaeth Ddibynnol ar y Goron ac arni lun o'r ceisydd.

(3) Os nad oes modd i geisydd ddarparu un o'r dogfennau yn is-baragraff (2), caiff y swyddog cofrestru ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu i'r swyddog cofrestru gopi, neu pan fo'r swyddog cofrestru'n ystyried ei bod yn briodol, y gwreiddiol—

(a) o un o'r dogfennau a ganlyn y mae'n rhaid iddi, ac eithrio mewn perthynas â pharagraff (vii), fod wedi ei dyroddi yn y Deyrnas Unedig neu mewn Tiriogaeth Ddibynnol ar y Goron—

(i) tystysgrif geni'r ceisydd;

(ii) tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil y ceisydd;

(iii) tystysgrif mabwysiadu'r ceisydd;

(iv) tystysgrif arfau tanio'r ceisydd a roddwyd o dan Ddeddf Arfau Tanio 1968(**31**);

(v) cofnod ynglŷn â phenderfyniad ar fechnïaeth a wnaed mewn cysylltiad â'r ceisydd yn unol ag adran 5(1) o Ddeddf Mechnïaeth 1976(**32**);

(vi) trwydded yrru'r ceisydd, nad yw ar ffurf cerdyn llun;

(vii) trwydded yrru'r ceisydd, a roddwyd heblaw yn y Deyrnas Unedig neu mewn Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron, ac arni lun o'r ceisydd ac y mae rhaid iddi fod yn ddilys am o leiaf 12 mis o'r dyddiad y daeth y ceisydd i'r Deyrnas Unedig, a

(**30**) 2007 p. 30. Diwygiwyd adran 5(6) gan baragraff 19 o'r Atodlen i Ddeddf Dogfennau Adnabod 2010 (p. 40).
(**31**) 1968 p. 27.
(**32**) 1976 p. 63. Diwygiwyd adran 5(1) gan adran 27(3) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p. 33) a pharagraff 1(a) o Atodlen 3 iddi, a chan Ran 12 o Atodlen 37 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44).

(b) dwy ddogfen arall, y caniateir i'r naill a'r llall ohonynt fod naill ai o is-baragraff (3)(a) neu o is-baragraff (4)(a) i (e).

(4) Os nad oes modd i'r ceisydd ddarparu dogfennau yn unol ag is-baragraff (3), caiff y swyddog cofrestru ei gwneud yn ofynnol bod y ceisydd yn darparu i'r swyddog cofrestru gopi, neu pan fo'r swyddog cofrestru yn ystyried ei bod yn briodol, y gwreiddiol, o bedair dogfen, y caniateir i bob un ohonynt fod yn unrhyw un o'r mathau a ganlyn o dystiolaeth ac y mae rhaid iddi ddwyn enw llawn y ceisydd—

(a) datganiad ariannol, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—

(i) datganiad morgais;

(ii) datganiad banc neu gymdeithas adeiladu neu lythyr oddi wrth fanc neu gymdeithas adeiladu yn cadarnhau bod y ceisydd wedi agor cyfrif gyda'r banc hwnnw neu'r gymdeithas adeiladu honno;

(iii) datganiad cerdyn credyd;

(iv) datganiad pensiwn;

(b) llythyr galw am dalu'r dreth gyngor neu ddatganiad y dreth gyngor;

(c) bil cyfleustodau;

(d) Ffurflen P45 neu Ffurflen P60 a ddyroddwyd i'r ceisydd gan ei gyflogwr neu gyn-gyflogwr;

(e) datganiad ynglŷn â budd-daliadau neu hawlogaeth i fudd-daliadau, megis datganiad ynglŷn â budd-dal plant, o fewn ystyr adran 141 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**33**), neu lythyr yn cadarnhau bod gan y ceisydd hawlogaeth i fudd-dal tai, o fewn ystyr adran 130 o'r Ddeddf honno(**34**).

(5) Os nad oes modd i geisydd ddarparu'r dystiolaeth ddogfennol sy'n ofynnol gan is-baragraffau (2) i (4), caiff y swyddog cofrestru ei gwneud yn ofynnol bod y ceisydd yn darparu ardystiad y mae rhaid iddo—

(a) cadarnhau mai'r ceisydd yw'r person a enwir yn y cais,

(b) datgan bod y person sy'n llofnodi'r ardystiad yn ymwybodol o'r gosb am ddarparu gwybodaeth ffug i swyddog cofrestru,

(c) bod mewn ysgrifen a bod wedi ei lofnodi gan berson—

(i) y mae'r swyddog cofrestru wedi ei fodloni ei fod yn berson ag enw da yn y gymuned,

(ii) sydd wedi ei gofrestru fel etholwr mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr,

(iii) nad yw'n briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn daid/tad-cu neu'n nain/mam-gu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn nac yn ŵyr neu'n wyres i'r ceisydd, a

(iv) nad yw eisoes wedi llofnodi ardystiad hunaniaeth perthnasol ar gyfer unrhyw geiswyr eraill ers, pa un bynnag o'r dyddiadau canlynol sydd hwyraf—

(**33**) 1992 (p. 4). Diwygiwyd adran 141 gan adran 1(1) o Ddeddf Budd-dal Plant 2005 (p. 6).

(**34**) Diwygiwyd adran 130 gan adran 103 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) a pharagraff 3 o Atodlen 9 iddi, gan adran 227 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) a Rhan 6 o Atodlen 19 iddi, a chan adrannau 30(1) a 40 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 (p. 5) a pharagraff 1(3) o Atodlen 5 iddi. Mae wedi ei diwygio yn rhagolygol gan adran 96 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22) ac mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan Ran 1 o Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5), o ddyddiad ac amser sydd i'w pennu.

(aa) y dyddiad y cyhoeddwyd y gofrestr ddiwygiedig y mae enw'r person hwnnw'n ymddangos ynddi ddiwethaf o dan adran 13(1) o Ddeddf 1983(**35**), neu

(bb) y dyddiad y dyroddwyd hysbysiad yn pennu cofnod y person hwnnw yn y gofrestr o dan adran 13A(2), 13AB(2), 13B neu 13BC o'r Ddeddf honno(**36**), ac os bu mwy nag un hysbysiad o'r fath, y dyddiad y dyroddwyd yr un diwethaf;

(d) datgan enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, rhif etholiadol a galwedigaeth y person sy'n llofnodi'r ardystiad, ac

(e) datgan ar ba ddyddiad y'i gwneir.

(6) Caniateir i unrhyw ddogfen a ddarperir yn unol â'r paragraff hwn gael ei throsglwyddo gan geisydd i swyddog cofrestru drwy ddulliau electronig.

(7) Yn is-baragraff (5)(c)(iv), "ardystiad hunaniaeth perthnasol" yw ardystiad a ddarperir yn unol ag—

(a) is-baragraff (5);

(b) rheoliadau 26B(6) neu (6ZA) neu 56C(5A) neu (6) o Reoliadau 2001(**37**);

(c) rheoliad 26B(6) neu (6ZA) neu 56C(5A) neu (6) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001(**38**);

(d) rheoliad 11B(5) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol mewn Etholiadau Llywodraeth Leol) (Yr Alban) 2007(**39**);

(e) rheoliad 25A(3) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Gogledd Iwerddon) 2008(**40**);

(f) paragraff 16C(5) o Atodlen 2 i Orchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012(**41**);

(**35**) Amnewidiwyd adran 13 gan adran 8(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi. Amnewidiwyd adran 13(1) ymhellach gan adran 5(1) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2006 (p. 33).

(**36**) Mewnosodwyd adrannau 13A a 13B gan adran 8(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi. Diwygiwyd adran 13A(2) gan adran 30(1) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2006 ("Deddf 2006") a pharagraff 4(3) o Atodlen 4 iddi; mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mewnosodwyd adran 13AB gan adran 16(3) o Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 (p. 6) ("Deddf 2013"), y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd adran 13B gan adran 11 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22), gan adran 6(1) o Ddeddf 2006, gan adran 74 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13) a pharagraff 3 o Atodlen 10 iddi, gan adran 13(1) o Ddeddf 2013 a pharagraff 13 o Atodlen 4 iddi, gan adran 10(6) o Ddeddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 (p. 25) ("Deddf 2015") a pharagraff 5 o Atodlen 2 iddi, a chan Ran 1 o Atodlen 1 i O.S. 2018/1310. Mae wedi ei diwygio yn rhagolygol gan adran 18(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) o ddyddiad ac amser sydd i'w pennu, ond mae adran 18 o'r Ddeddf honno wedi ei diwygio yn rhagolygol gan adran 3 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5) o ddyddiad ac amser sydd i'w pennu. Mewnosodwyd adran 13BC gan adran 10(6) o Ddeddf 2015 a pharagraff 7 o Atodlen 2 iddi.

(**37**) Mewnosodwyd rheoliad 26B gan reoliad 11 o O.S. 2013/3198. Diwygiwyd paragraff (6) gan reoliad 5 o O.S. 2016/694, gan reoliad 4 o O.S. 2018/312 a chan reoliad 5(8) o O.S. 2023/1406. Mewnosodwyd paragraff (6ZA) gan reoliad 5(8)(f) o O.S. 2023/1406. Mewnosodwyd rheoliad 56C gan reoliad 5(8) o O.S. 2023/1147. Mewnosodwyd paragraff (5A) gan reoliad 6(2)(a) o O.S. 2023/1406. Diwygiwyd paragraff (6) yn ddiweddarach gan reoliad 6(2)(b) o O.S. 2023/1406.

(**38**) O.S. 2001/497. Mewnosodwyd rheoliad 26B gan reoliad 11 o O.S. 2013/3206. Diwygiwyd paragraff (6) gan reoliad 5 o O.S. 2017/604 a chan reoliad 10(7) o O.S. 2023/1406. Mewnosodwyd paragraff (6ZA) gan reoliad 10(7)(f) o O.S. 2023/1406. Mewnosodwyd rheoliad 56C gan reoliad 10(8) o O.S. 2023/1147. Mewnosodwyd paragraff (5A) gan reoliad 11(2)(a) o O.S. 2023/1406. Diwygiwyd paragraff (6) yn ddiweddarach gan reoliad 11(2)(b) o O.S. 2023/1406.

(**39**) O.S.A. 2007/170. Mewnosodwyd rheoliad 11B(5) gan reoliad 12 o O.S.A. 2026/122.

(**40**) O.S. 2008/1741. Mewnosodwyd rheoliad 25A gan reoliad 11 o O.S. 2024/43.

(**41**) O.S. 2012/1917. Mewnosodwyd paragraff 16C o Atodlen 2 gan reoliad 17 o O.S. 2023/1147. Amnewidiwyd is-baragraff (5) yn ddiweddarach gan reoliad 12 o O.S. 2023/1406.

(g) paragraff 9B(5) o Atodlen 3 i Orchymyn Senedd yr Alban (Etholiadau etc.) 2015(**42**);

(h) rheoliad 72B(5A) neu (6) o Reoliadau Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 (Deiseb Adalw) 2016(**43**);

(i) rheoliad 7(6) o Reoliadau Hunaniaeth Pleidleiswyr 2022(**44**).

(8) Nid yw is-baragraffau (2) i (5) yn gymwys pan fo'r ceisydd wedi ei gofrestru, neu wedi gwneud cais i gael ei gofrestru, yn unol ag unrhyw un o'r datganiadau a ganlyn—

(a) datganiad o wasanaeth ar y sail bod y ceisydd yn was i'r Goron neu'n briod neu'n bartner sifil i was i'r Goron;

(b) datganiad o wasanaeth ar y sail bod y ceisydd yn aelod o'r lluoedd;

(c) datganiad o wasanaeth ar y sail bod y ceisydd yn briod neu'n bartner sifil i aelod o'r lluoedd.

(9) Os yw is-baragraff (8)(a) neu (c) yn gymwys i gais, caiff y swyddog cofrestru ei gwneud yn ofynnol bod y ceisydd yn darparu i'r swyddog cofrestru gopi, neu pan fo'r swyddog cofrestru'n ystyried ei bod yn briodol, y gwreiddiol, o un o'r dogfennau a ganlyn, sydd wedi ei hardystio gan was i'r Goron neu gyflogai i'r Cyngor Prydeinig neu gan swyddog o'r lluoedd, nad yw'n briod nac yn bartner sifil i'r ceisydd—

(a) pasbort y ceisydd;

(b) cerdyn adnabod y ceisydd a ddyroddwyd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

(10) Os yw is-baragraff (8)(b) yn gymwys i gais, caiff y swyddog cofrestru ei gwneud yn ofynnol bod y ceisydd yn darparu ardystiad y mae rhaid iddo—

(a) cadarnhau mai'r ceisydd yw'r person a enwir yn y cais,

(b) bod mewn ysgrifen a bod wedi ei lofnodi gan swyddog o'r lluoedd nad yw'n briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn daid/tad-cu neu'n nain/mam-gu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn nac yn ŵyr neu'n wyres i'r ceisydd,

(c) datgan enw llawn, cyfeiriad a rheng y person sy'n llofnodi'r ardystiad, a'r gwasanaeth, pa un ai'r lluoedd llyngesol, milwrol neu awyr, y mae'n gwasanaethu ynddo, a

(d) datgan ar ba ddyddiad y'i gwneir.

(11) Caniateir i ddogfen neu ardystiad a ddarperir o dan y paragraff hwn gael ei throsglwyddo neu ei drosglwyddo gan geisydd drwy ddulliau electronig.

(12) Yn y paragraff hwn—

mae i "aelod o'r lluoedd" yr un ystyr ag a roddir i "member of the forces" yn adran 59(1) o Ddeddf 1983(**45**);

mae i "datganiad o wasanaeth" yr un ystyr ag a roddir i "service declaration" yn adran 202(1) o Ddeddf 1983;

ystyr "swyddog o'r lluoedd" yw aelod o'r lluoedd sydd yn swyddog;

(**42**) O.S.A. 2015/425. Mewnosodwyd paragraff 9B(5) o Atodlen 3 gan erthygl 9 o O.S.A. 2026/121.
(**43**) O.S. 2016/295. Mewnosodwyd rheoliad 72B gan reoliad 19 o O.S. 2023/1147. Mewnosodwyd is-baragraff (5A) gan reoliad 13(5) o O.S. 2023/1406. Diwygiwyd is-baragraff (6) yn ddiweddarach gan reoliad 13(5) o O.S. 2023/1406.
(**44**) O.S. 2022/1382.
(**45**) Diwygiwyd adran 59(1) gan adran 1 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1993 (p. 29).

ystyr “Tiriogaeth Ddibynnol ar y Goron” yw Beilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw.

(13) Nid yw’r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â chais o dan erthygl 7(2)—

(a) sy’n dod i law’r swyddog cofrestru ar ôl 5.00 p.m. ar y chweched diwrnod cyn diwrnod y pôl yn yr etholiad y gwneir y cais ar ei gyfer, na

(b) pan fo paragraff 11(3) neu (3A) yn gymwys.

Prosesu gwybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â chais pleidleisio absennol

11C.—(1) Os yw person yn darparu dogfen wreiddiol o dan baragraff 11B, rhaid i’r swyddog cofrestru wneud copi o’r ddogfen honno a dychwelyd y ddogfen wreiddiol i’r person a’i darparodd.

(2) Mewn cysylltiad ag unrhyw gais pleidleisio absennol, hyd nes bod y cais wedi ei benderfynu, rhaid i’r swyddog cofrestru gadw—

(a) y ffurflen gais neu, yn achos cais a wneir drwy wasanaeth digidol y DU, yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais a drosglwyddir i’r swyddog cofrestru gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

(b) unrhyw wybodaeth arall neu ddogfennau eraill a ddarperir i’r swyddog cofrestru mewn cysylltiad â’r cais neu, yn achos dogfennau gwreiddiol a ddychwelir o dan is-baragraff (1), gopi o’r dogfennau hynny.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), caiff y swyddog cofrestru gadw’r ffurflen gais, yr wybodaeth a’r dogfennau yn is-baragraff (2) ar ôl i’r cais gael ei benderfynu ond, os yw’n gwneud hynny, rhaid iddo ddileu rhif yswiriant gwladol y ceisydd o’r ffurflen gais, yr wybodaeth a’r dogfennau yn is-baragraff (2) erbyn y dyddiad nad yw’n hwyrach na 13 mis o’r dyddiad y penderfynodd y swyddog cofrestru y cais pleidleisio absennol.

(4) Nid yw’r gofyniad i ddileu’r rhif yswiriant gwladol yn is-baragraff (3) yn gymwys pan fo angen y cais, yr wybodaeth a’r dogfennau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) at ddiben unrhyw achos sifil neu droseddol.

(5) Ni chaniateir datgelu gwybodaeth a ddatgelir o dan baragraff 11A i unrhyw berson arall, ac eithrio at ddibenion—

(a) penderfynu’r cais pleidleisio absennol y datgelwyd yr wybodaeth mewn cysylltiad ag ef, neu

(b) achos sifil neu droseddol.

(6) Mae person sy’n datgelu gwybodaeth yn groes i is-baragraff (5) yn euog o drosedd ac yn agored—

(a) ar euogfarn ar dditiad, i’w garcharu am gyfnod nad yw’n hwy na dwy flynedd, neu i ddirwy, neu’r ddau;

(b) ar euogfarn ddiannod, i’w garcharu am gyfnod nad yw’n hwy na’r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon, neu i ddirwy, neu’r ddau.

(7) Rhaid i unrhyw wybodaeth a ddatgelir o dan baragraff 11A gael ei phrosesu yn unol ag unrhyw ofynion o ran prosesu gwybodaeth y gallai’r Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fod wedi eu gosod mewn ysgrifen cyn y prosesu hwnnw, gan gynnwys gofynion o ran trosglwyddo, storio, dinistrio a diogelwch yr wybodaeth honno.

(8) Yn y paragraff hwn mae “copi” yn cynnwys copi electronig.”

Etholiadau Llywodraeth Leol

21.—(1) Mae Rhan 4 o Reoliadau 2001 (pleidleiswyr absennol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 56B (gwirhau gwybodaeth a ddarperir mewn cais pleidleisio absennol perthnasol)(**46**)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application";

(b) ym mharagraff (1), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application";

(c) ym mharagraff (8)(a), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or the relevant devolved absent voting application".

(3) Yn rheoliad 56C (pŵer i ofyn am dystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau pleidleisio absennol perthnasol pan fo'r swyddog cofrestru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol)(**47**)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "relevant absent voting applications" mewnosoder "or relevant devolved absent voting applications";

(b) ym mharagraff (1), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application";

(c) ym mharagraff (5), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), ar ôl "Where" mewnosoder ", in relation to a relevant absent voting application,";

(d) ym mharagraff (8), ar ôl is-baragraff (f), mewnosoder—

"(g) paragraph 11B(5) of Schedule 1 to the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025, in relation to a relevant devolved absent voting application.";

(e) ym mharagraff (9), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), hepgorer "in England".

(4) Yn rheoliad 56D (prosesu gwybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â chais pleidleisio absennol perthnasol)(**48**)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application";

(b) ym mharagraff (2), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or relevant devolved absent voting application";

(c) ym mharagraff (3), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or the relevant devolved absent voting application";

(d) ym mharagraff (5)(a), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or the relevant devolved absent voting application";

(e) ym mharagraff (6), ar ôl "paragraph (5)" mewnosoder "in connection with a relevant absent voting application,".

(**46**) Mewnosodwyd rheoliad 56B gan reoliad 5(8) o O.S. 2023/1147 ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan reoliad 8 o O.S. 2024/991 a pharagraff 16(10) o Ran 2 o'r Atodlen iddo.

(**47**) Mewnosodwyd rheoliad 56C gan reoliad 5(8) o O.S. 2023/1147 ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan reoliad 6(2) o O.S. 2023/1406 a rheoliad 22(4) o O.S. 2024/43.

(**48**) Mewnosodwyd rheoliad 56D gan reoliad 5(8) o O.S. 2023/1147 a gwnaed diwygiadau perthnasol gan reoliad 8 o O.S. 2024/991 a pharagraff 16(11) o Ran 2 o'r Atodlen iddo.

RHAN 6

DIWYGIADAU CANLYNIADOL

Etholiadau'r Senedd

22. Mae Gorchymyn 2025 wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 23 a 24.

Diwygio Rhan 5 (amrywiol ac atodol)

23. Yn erthygl 141 (ceisiadau, hysbysiadau a llofnodion electronig)—

(a) ym mharagraff (1), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), ar ôl "hysbysiad," mewnosoder "ardystiad a roddir o dan baragraff 11B(5) o Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd),";

(b) ar ôl paragraff (4), mewnosoder—

"(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â chais pleidleisio absennol, y mae'r gofynion ar ei gyfer wedi eu nodi yn Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd)."

Diwygio Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd)

24.—(1) Mae Atodlen 1 (pleidleisio absennol yn etholiadau'r Senedd) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 9 (gofynion ychwanegol ar gyfer ceisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn cysylltiad ag etholiad penodol i'r Senedd), ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

"(7A) Os gwneir cais o dan erthygl 7(2) ar ôl 5.00 p.m. ar y chweched diwrnod cyn diwrnod y pôl yn yr etholiad y gwneir y cais ar ei gyfer am fod yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 11(3B)(a) yn gymwys, rhaid i'r cais, yn ogystal â darparu unrhyw wybodaeth arall, ddatgan ei fod yn cael ei wneud oherwydd yr amgylchiadau hynny."

(3) Ym mharagraff 11 (y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau), ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Os gwneir cais o dan erthygl 7(2) neu 9(7) yn yr amgylchiadau a nodir yn is-baragraff (3B), rhaid gwrthod y cais os daw i law ar ôl 5.00 p.m. ar ddiwrnod y pôl yn yr etholiad y gwneir y cais ar ei gyfer.

(3B) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod y ceisydd wedi cyflwyno'r cais am fod cais cynharach a gyflwynwyd gan y ceisydd hwnnw o dan erthygl 6(2) neu 9(6) i'w ddiystyru ar gyfer yr etholiad y gwneir y cais ar ei gyfer am fod y cais cynharach hwnnw—

(i) wedi ei gyflwyno cyn y dyddiad cau o 5.00 p.m. ar y chweched diwrnod cyn diwrnod y pôl yn yr etholiad y gwneir y cais ar ei gyfer,

(ii) wedi ei gyflwyno drwy wasanaeth digidol y DU, a

(iii) heb ddod i law'r swyddog cofrestru tan ar ôl y dyddiad cau o 5.00 p.m. ar y chweched diwrnod cyn diwrnod y pôl yn yr etholiad y gwneir y cais ar ei gyfer oherwydd diffyg technegol yn y gwasanaeth digidol, neu

(b) bod y cais yn bodloni'r amodau a bennir yn is-baragraffau (i), (ii) a (iii) o baragraff (a)."

Etholiadau Llywodraeth Leol

25. Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 26 i 28.

Diwygio Rhan 1 (cyffredinol, dehongli ac amrywiol)

26. Yn rheoliad 6(4) (llofnodion electronig a thystysgrifau cysylltiedig)(**49**), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application".

Rhan 3 (cofrestru)

27.—(1) Mae Rhan 3 (cofrestru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 29ZB (prosesu gwybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â chais o dan adran 10ZC neu 10ZD)(**50**)—

(a) ym mharagraff (5)(aa)(i), ar ôl "relevant absent voting application" yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder "or relevant devolved absent voting application"

(b) ar ôl paragraff (5)(aa)(i) mewnosoder—

"(ia) an application for an absent vote made under article 6, 7, 9 or 10 of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025 by the same applicant where that information is used by the Secretary of State to complete in part that application by virtue of paragraph 1(6A) of Schedule 1 to that Order,".

(3) Yn rheoliad 35(4) (hawl swyddog cofrestru i edrych ar gofnodion penodol)(**51**), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application".

(4) Yn rheoliad 35A(1) (datgelu cofnodion awdurdodau lleol penodol)(**52**), ar ôl "relevant absent voting application" mewnosoder "or a relevant devolved absent voting application".

Rhan 4 (pleidleisio absennol)

28. Yn rheoliad 56(3D) (y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau)(**53**), ar ôl "paragraph (3F)" mewnosoder "in relation to a parliamentary election or a local government election in England or Wales".

RHAN 7

DARPARIAETHAU TROSIANNOL

Diffiniadau

29. Yn y Rhan hon—

(**49**) Mewnosodwyd rheoliad 6(4) gan reoliad 3(4) o O.S. 2023/1147.
(**50**) Mewnosodwyd rheoliad 29ZB(5)(aa) gan reoliad 4(3)(b)(ii) o O.S. 2023/1147 ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan reoliad 5(12)(b)(ii) o O.S. 2023/1406.
(**51**) Mewnosodwyd rheoliad 35(4) gan reoliad 5(18) o O.S. 2023/1406.
(**52**) Mewnosodwyd rheoliad 35A gan reoliad 3 o O.S. 2014/1234 a diwygiwyd rheoliad 35A(1) yn ddiweddarach gan reoliad 5(19) o O.S. 2023/1406.
(**53**) Mewnosodwyd rheoliad 56(3D) gan reoliad 38(7)(d) o O.S. 2022/1382 ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan reoliad 5(7)(a) o O.S. 2023/1147.

ystyr “cais pleidleisio absennol datganoledig” (“*devolved absent voting application*”) yw cais, gan gynnwys cais a gwblheir yn rhannol, a wneir o dan—

(a) erthygl 6, 7 neu 9 o Orchymyn 2025 mewn perthynas ag etholiad i’r Senedd, neu etholiadau’r Senedd, neu

(b) paragraff 3, 4 neu 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000 mewn perthynas ag etholiad llywodraeth leol, neu etholiadau llywodraeth leol, yng Nghymru;

mae i “cyfeiriad cymhwysol” yr un ystyr ag a roddir i “qualifying address” yn adran 9(8)(b) o Ddeddf 1983(**54**);

ystyr “Deddf 1983” (“*1983 Act*”) yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**55**);

ystyr “diwrnod perthnasol” (“*relevant day*”) yw 3 Tachwedd 2026;

mae i “etholiad seneddol” yr un ystyr ag a roddir i “parliamentary election” yn Atodlen 1 (geiriau ac ymadroddion wedi eu diffinio) i Ddeddf Dehongli 1978(**56**);

ystyr “etholwr” (“*elector*”), mewn perthynas ag etholiad, yw unrhyw berson y mae ganddo gofnod am y tro ar y gofrestr sydd i’w defnyddio yn yr etholiad hwnnw neu, yn achos person sydd â chofnod dienw yn y gofrestr, yn y cofnod o gofnodion dienw, ond nid yw’n cynnwys y rhai y mae’r gofrestr yn dangos eu bod o dan yr oedran pleidleisio ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y pôl;

ystyr “hawlogaeth i bleidlais absennol ddatganoledig” (“*devolved absent vote entitlement*”) yw hawlogaeth i bleidleisio drwy ddirprwy neu i bleidleisio drwy’r post, pan fo’r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol, mewn—

(a) etholiad i’r Senedd, neu etholiadau’r Senedd, ar gais o dan erthygl 6, 7 neu 9 o Orchymyn 2025, neu

(b) etholiad llywodraeth leol, neu etholiadau llywodraeth leol, yng Nghymru ar gais o dan baragraff 3, 4 neu 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000;

ystyr “hawlogaeth i bleidlais absennol gadwedig” (“*reserved absent vote entitlement*”) yw hawlogaeth i bleidleisio drwy ddirprwy neu i bleidleisio drwy’r post, mewn etholiad seneddol, neu etholiadau seneddol, yng Nghymru, pan fo’r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan baragraff 3, 4 neu 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000;

ystyr “hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig” (“*devolved proxy vote entitlement*”) yw hawlogaeth i bleidleisio drwy ddirprwy, pan fo’r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol, mewn—

(a) etholiad i’r Senedd, neu etholiadau’r Senedd, ar gais o dan erthygl 6(2), 6(6), 7(2) neu 7(4) o Orchymyn 2025, neu

(b) etholiad llywodraeth leol, neu etholiadau llywodraeth leol, yng Nghymru, ar gais o dan baragraff 3(2), 3(6), 4(2), 4(2A) neu 4(3) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**57**);

ystyr “hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig” (“*reserved proxy vote entitlement*”) yw hawlogaeth i bleidleisio drwy ddirprwy, mewn etholiad seneddol,

---

(**54**) Amnewidiwyd adran 9 gan adran 8(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi. Diwygiwyd yr adran yn ddiweddarach, ond nid yw’r diwygiadau hynny’n berthnasol yma.
(**55**) 1983 p. 2.
(**56**) 1978 p. 30.
(**57**) Diwygiwyd paragraff 3(2) o Atodlen 4 gan adran 14(1)(b) o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a diwygiwyd paragraff 3(6) o Atodlen 4 gan adran 14(2)(b) o’r Ddeddf honno.

neu etholiadau seneddol, yng Nghymru, pan fo'r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan baragraff 3(2), 3(6), 4(2), 4(2A) neu 4(3) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000;

ystyr "hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig" ("*devolved proxy postal vote entitlement*") yw hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post, fel dirprwy, mewn—

(a) etholiad i'r Senedd, neu etholiadau'r Senedd, pan fo'r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan erthygl 10(4) o Orchymyn 2025, neu

(b) etholiad llywodraeth leol, neu etholiadau llywodraeth leol, yng Nghymru, pan fo'r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan baragraff 7(4) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**58**);

ystyr "hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy gadwedig" ("*reserved proxy postal vote entitlement*") yw hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post, fel dirprwy, mewn etholiad seneddol, neu etholiadau seneddol, yng Nghymru, pan fo'r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan baragraff 7(4) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000;

ystyr "hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig" ("*devolved postal vote entitlement*") yw hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post, fel etholwr, mewn—

(a) etholiad i'r Senedd, neu etholiadau'r Senedd, pan fo'r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan erthygl 6(1), 6(8) neu 7(1) o Orchymyn 2025, neu

(b) etholiad llywodraeth leol, neu etholiadau llywodraeth leol, yng Nghymru, pan fo'r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan baragraff 3(1), 3(7) neu 4(1) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**59**);

ystyr "hawlogaeth i bleidlais drwy'r post gadwedig" ("*reserved postal vote entitlement*") yw hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post, mewn etholiad seneddol, neu etholiadau seneddol, yng Nghymru, pan fo'r hawlogaeth wedi ei rhoi cyn y diwrnod perthnasol ar gais o dan baragraff 3(1), 3(7) neu 4(1) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000;

ystyr "hysbysiad paragraff 16" ("*paragraph 16 notice*") yw hysbysiad o dan baragraff 16(1) o Atodlen 1 i Orchymyn 2025 (gofyniad i ddarparu llofnodion newydd bob pum mlynedd);

ystyr "hysbysiad rheoliad 60A" ("*regulation 60A notice*") yw hysbysiad o dan reoliad 60A(2) o Reoliadau 2001 (gofyniad i ddarparu llofnodion newydd ar ysbeidiau)(**60**);

(**58**) Diwygiwyd paragraff 7(4) o Atodlen 4 gan adran 3 o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a pharagraff 3(2) o Atodlen 3 iddi.

(**59**) Diwygiwyd paragraff 3(1) o Atodlen 4 gan adran 14(1) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) ("DGE 2006") a chan adran 3 o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) ("Deddf 2022") a pharagraff 2(2) o Atodlen 3 iddi, ac mae wedi ei ddiwygio yn rhagolygol gan adran 1(5)(a) o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27) o 3 Tachwedd 2026. Diwygiwyd paragraff 3(7) o Atodlen 4 gan adran 3 o Ddeddf 2022 a pharagraff 2(6) o Atodlen 3 iddi, ac mae wedi ei ddiwygio yn rhagolygol gan adran 1(5)(g) o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27) o 3 Tachwedd 2026. Diwygiwyd paragraff 4(1) o Atodlen 4 gan adran 14(2) o DGE 2006.

(**60**) Mewnosodwyd rheoliad 60A gan reoliad 34 o O.S. 2006/2910 ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan reoliad 5(11) o O.S. 2023/1147 a chan reoliad 6(4) o O.S. 2023/1406.

ystyr “swyddog cofrestru” (“*registration officer*”) yw swyddog cofrestru etholiadol o dan adran 8 o Ddeddf 1983(**61**).

Ceisiadau pleidleisio absennol datganoledig a cheisiadau pleidleisio drwy’r post drwy ddirprwy datganoledig nas penderfynir erbyn y diwrnod perthnasol

30.—(1) Mae cais pleidleisio absennol datganoledig neu gais pleidleisio drwy’r post drwy ddirprwy datganoledig a wneir cyn y diwrnod perthnasol, ond nas penderfynir erbyn y diwrnod hwnnw, i’w drin fel pe na bai wedi ei wneud.

(2) Os, yn unol â pharagraff (1), yw cais person yn cael ei drin fel pe na bai wedi ei wneud, rhaid i’r swyddog cofrestru, cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl y diwrnod perthnasol, anfon at y person hwnnw, yng nghyfeiriad cymhwysol y person hwnnw, wybodaeth am sut i wneud cais newydd.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “cais pleidleisio drwy’r post drwy ddirprwy datganoledig” yw cais, gan gynnwys cais a gwblheir yn rhannol, a wneir o dan—

(a) erthygl 10(4) o Orchymyn 2025 mewn perthynas ag etholiad i’r Senedd, neu etholiadau’r Senedd, neu

(b) paragraff 7(4) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000 mewn perthynas ag etholiad llywodraeth leol, neu etholiadau llywodraeth leol, yng Nghymru.

Terfynu hawlogaethau penodol i bleidlais drwy’r post drwy ddirprwy ddatganoledig

31.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys os oes gan berson (“P”), cyn y diwrnod perthnasol—

(a) hawlogaeth i bleidlais drwy’r post drwy ddirprwy ddatganoledig, a

(b) hawlogaeth i bleidlais drwy’r post drwy ddirprwy gadwedig.

(2) Os yw’r rheoliad hwn yn gymwys, daw hawlogaeth P i bleidlais drwy’r post drwy ddirprwy ddatganoledig i ben ar y diwrnod perthnasol.

(3) Os daw hawlogaeth P i bleidlais drwy’r post drwy ddirprwy ddatganoledig i ben oherwydd gweithrediad paragraff (2), cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl y diwrnod perthnasol, rhaid i’r swyddog cofrestru anfon at P, yng nghyfeiriad cymhwysol P—

(a) hysbysiad yn rhoi gwybod i P fod hawlogaeth P i bleidlais drwy’r post drwy ddirprwy ddatganoledig wedi dod i ben, yn rhoi’r rheswm pam y mae wedi dod i ben ac yn egluro effaith terfynu’r hawlogaeth honno, a

(b) gwybodaeth am sut i wneud cais newydd.

(4) Os yw paragraff (2) yn gymwys, cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl y diwrnod perthnasol, rhaid i’r swyddog cofrestru—

(a) diweddaru’r canlynol i adlewyrchu terfynu’r hawlogaeth i bleidlais drwy’r post drwy ddirprwy ddatganoledig oherwydd gweithrediad paragraff (2)—

(i) y cofnodion, fel y maent yn gymwys i P, a gedwir o dan erthygl 10(6) a (13) o Orchymyn 2025, neu baragraff 7(6) a (12) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**62**), a

(**61**) Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 8 gan adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 68(1) o Atodlen 16 iddi, a chan adran 11(4) o Ddeddf y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 (p. 1).

(**62**) Diwygiwyd paragraff 7(6) o Atodlen 4 gan adran 3 o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a pharagraff 3(5) o Atodlen 3 iddi, ac mae wedi ei ddiwygio yn rhagolygol gan adran 1(6)(c) o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a’r Alban) 2025 (p. 27) o 3 Tachwedd 2026.

(ii) y rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy a gedwir o dan erthygl 10(8) o Orchymyn 2025, neu baragraff 7(8) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**63**), a

(b) hysbysu'r etholwr a benododd y dirprwy, drwy hysbysiad a anfonir i gyfeiriad cymhwysol yr etholwr, fod yr hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig wedi dod i ben.

Terfynu hawlogaethau penodol i bleidlais drwy'r post ddatganoledig a hawlogaethau penodol i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig

32.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo naill ai paragraff (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae gan berson ("P"), cyn y diwrnod perthnasol, hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig sy'n para—

(a) am gyfnod amhenodol, neu

(b) am gyfnod a fyddai'n dod i ben ar ôl y trydydd 31 Ionawr ar ôl y diwrnod perthnasol.

(3) Mae gan berson ("P"), cyn y diwrnod perthnasol—

(a) hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig ac nid oes ganddo hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy gadwedig, a

(b) mae hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig yn para—

(i) am gyfnod amhenodol, neu

(ii) am gyfnod a fyddai'n dod i ben ar ôl y trydydd 31 Ionawr ar ôl y diwrnod perthnasol.

(4) Daw hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post ddatganoledig neu hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig i ben ar—

(a) y dyddiad dod i ben trosiannol, neu

(b) os yw'n hwyrach, y dyddiad dod i ben cadwedig os yw'n gymwys.

(5) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y diwrnod perthnasol, rhaid i'r swyddog cofrestru ddiweddaru'r canlynol i adlewyrchu unrhyw newid yn y cyfnod y mae hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post ddatganoledig neu hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig yn para amdano oherwydd gweithrediad paragraff (4)—

(a) y cofnodion, fel y maent yn gymwys i P, a gedwir o dan—

(i) erthygl 6(4), 6(11), 7(7) neu 10(6) o Orchymyn 2025, neu

(ii) paragraff 3(4), 3(9), 4(6) neu 7(6) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**64**), a

(b) y rhestr pleidleiswyr drwy'r post neu'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy, fel y mae'n gymwys i P, a gedwir o dan—

(i) erthygl 8(1)(a) a (2) neu 10(8) o Orchymyn 2025, neu

(ii) paragraff 5(1) a (2) neu 7(8) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**65**).

(6) Cyn y dyddiad y daw hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post ddatganoledig neu hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig i ben oherwydd

(**63**) Diwygiwyd paragraff 7(8) o Atodlen 4 gan adran 10 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) a pharagraff 137(7) o Atodlen 1 iddi.

(**64**) Diwygiwyd paragraff 3(4) o Atodlen 4 gan adran 3 o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a pharagraff 2(4) o Atodlen 3 iddi. Mewnosodwyd paragraff 4(6) o Atodlen 4 gan adran 14(2)(c) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22).

(**65**) Diwygiwyd paragraff 5(1) o Atodlen 4 gan adran 10 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) ("DGE 2006") a pharagraff 137(5) o Atodlen 1 iddi. Diwygiwyd paragraff 5(2) o Atodlen 4 gan adran 10 o DGE 2006 a pharagraff 137(6) o Atodlen 1 iddi.

gweithrediad paragraff (4), rhaid i'r swyddog cofrestru anfon at P, yng nghyfeiriad cymhwysol P—

(a) hysbysiad yn rhoi gwybod i P am y dyddiad y daw hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post ddatganoledig neu hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig i ben, a

(b) gwybodaeth am sut i wneud cais newydd i bleidleisio drwy'r post, fel etholwr neu fel dirprwy.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys os, oherwydd gweithrediad paragraff (4)(a), daw hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post ddatganoledig i ben ar y dyddiad adnewyddu llofnod.

(8) Nid yw unrhyw ofyniad i anfon at P hysbysiad paragraff 16 neu hysbysiad rheoliad 60A erbyn y dyddiad adnewyddu llofnod yn gymwys, oni bai—

(a) bod gan P hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig sy'n parhau y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw, a

(b) bod paragraff 16 o Orchymyn 2025 a rheoliad 60A o Reoliadau 2001 yn gymwys mewn perthynas â'r hawlogaeth honno neu'r hawlogaethau hynny.

(9) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "dyddiad adnewyddu llofnod" ("*signature refresh date*") yw'r 31 Ionawr erbyn pryd y byddai'n ofynnol i'r swyddog cofrestru anfon at P hysbysiad paragraff 16 neu hysbysiad rheoliad 60A, gan gymryd nad oes dim newid wedi bod yn hawlogaeth neu hawlogaethau P i bleidleisio drwy'r post ar ôl y diwrnod perthnasol, a chan ddiystyru paragraff (8) o'r rheoliad hwn a'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 7(5) ac 8(4) o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "dyddiad dod i ben cadwedig" ("*reserved expiry date*") yw'r dyddiad y daw hawlogaeth P i bleidlais drwy'r post gadwedig, os oes ganddo un, i ben, yn unol â pharagraff 3(1A) o Atodlen 4(**66**) i Ddeddf 2000;

ystyr "dyddiad dod i ben trosiannol" ("*transitional expiry date*") yw—

(a) y trydydd 31 Ionawr ar ôl y diwrnod perthnasol, neu

(b) os yw'n gynharach, y dyddiad adnewyddu llofnod ar gyfer yr hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig.

Cysoni dyddiadau adnewyddu llofnod penodol

33.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os, cyn y diwrnod perthnasol—

(a) oes gan berson ("P")—

(i) hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig, a

(ii) hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig, a

(b) yw'r dyddiadau adnewyddu llofnod ar gyfer yr hawlogaethau yn wahanol.

(2) O'r diwrnod perthnasol, mae'r dyddiad adnewyddu llofnod ar gyfer hawlogaeth P i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig a hawlogaeth P i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig wedi eu cysoni.

(3) Y dyddiad adnewyddu llofnod a gysonwyd yw'r dyddiad adnewyddu llofnod ar gyfer hawlogaeth P i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig.

(**66**) Mewnosodwyd paragraff 3(1A) gan adran 3 o Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37) a pharagraff 2(3) o Atodlen 3 iddi, ac mae wedi ei ddiwygio yn rhagolygol gan adran 1(5)(b) o Ddeddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 (p. 27) o 3 Tachwedd 2026.

(4) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y diwrnod perthnasol, rhaid i'r swyddog cofrestru gymhwyso'r llofnod a ddarparwyd gan P mewn cysylltiad â hawlogaeth P i bleidlais drwy ddirprwy gadwedig i bob cofnod, fel y maent yn gymwys i P, a gedwir o dan—

(a) erthygl 6(11) neu 7(7) o Orchymyn 2025 a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddo, neu

(b) paragraff 3(9) neu 4(6) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000(**67**) a rheoliad 61B(**68**) o Reoliadau 2001.

